Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

# Cod yr NMC

# Staff proffesiynol, gwasanaethau o safon



Blaenoriaethu pobl

Ymarfer yn effeithiol

Cynnal diogelwch

Annog proffesiynoldeb ac ymddiriedaeth

Mae'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) yn rheoleiddio'r 680,000 o nyrsys a bydwragedd sydd wedi'u cofrestru yn y DU. Rydym wedi diweddaru'r Cod ymarfer a'r ymddygiadau sy'n rheoli'r safonau proffesiynol y mae'n rhaid i'ch staff nyrsio a bydwreigiaeth eu cynnal.

Mae'r Cod diwygiedig yn weithredol i bob nyrs a bydwraig o 31 Mawrth 2015.

Mae'r daflen hon yn rhoi trosolwg o'r prif newidiadau i'r Cod a'i nod yw eich helpu i ddeall eich rôl a'ch cyfrifoldeb fel cyflogwr gweithiwr proffesiynol cofrestredig.

# Cod yr NMC
## Pam ei fod yn bwysig i gyflogwyr

Chi sy'n gyfrifol am ddiogelwch ac ansawdd y gofal a ddarperir gan eich staff. Mae'r Cod yn cefnogi'r amcan hwn drwy sicrhau y caiff pob cysylltiad, cam gweithredu a phenderfyniad a wneir gan nyrs neu fydwraig ei reoli gan safonau ac egwyddorion proffesiynol craidd.


Mae'r safonau y mae nyrsys a bydwragedd yn ymarfer yn unol â hwy yn allweddol i ansawdd y gwasanaethau a ddarparwch.

**Manteision y cod diwygiedig**

Mae'r Cod diwygiedig wedi'i ddatblygu mewn ymgynghoriad â nyrsys a bydwragedd, cyflogwyr, y cyhoedd ac addysgwyr, ymhlith eraill. Mae llawer o synergeddau â Chodau y mae gweithwyr proffesiynol cofrestredig eraill yn cydymffurfio â hwy, a dylai hyn gefnogi gwaith tîm amlddisgyblaethol. Bydd nyrsys a bydwragedd sy'n cydymffurfio â'r Cod yn eich helpu i gyflawni'ch nodau o ran ansawdd a diogelwch ac mae'r Cod diwygiedig yn fwy cyson â'r rhain.

Mae'r Cod yn pwysleisio'r angen i nyrsys a bydwragedd wneud y canlynol:

- ☑ Blaenoriaethu pobl
- ☑ Ymarfer yn effeithiol
- ☑ Cynnal diogelwch
- ☑ Annog proffesiynoldeb ac ymddiriedaeth













Mae i'r Cod diwygiedig oblygiadau o ran nyrsys a bydwragedd rheng flaen, timau rheoli a sefydliadau cyflogi.

## Newidiadau allweddol i'r Cod

Caiff y Cod ei ddiweddaru o bryd i'w gilydd er mwyn sicrhau ei fod yn berthnasol i ymarfer nyrsio a bydwreigiaeth cyfredol. Mae'r diwygiad hwn yn rhoi cyfres o safonau sy'n adlewyrchu newidiadau mewn ymarfer nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol cyfoes, yn ogystal â disgwyliadau ehangach iechyd a gofal cymdeithasol. Ei ffocws yw ysgogi gwelliannau parhaus o ran ansawdd a diogelwch gofal.

Mae'r safonau wedi'u hehangu i gynnwys y canlynol:

- ☑ Dyletswydd gonestrwydd broffesiynol
- ☑ Gofyniad i gynnig cymorth os bydd argyfwng yn codi y tu allan i faes ymarfer arferol nyrs neu fydwraig
- ☑ Sicrhau bod hanfodion gofal yn cael eu darparu'n effeithiol yn ystod pob cam o fywyd
- ☑ Safonau newydd ar ymdrin â chwynion
- ☑ Defnyddio pob dull cyfathrebu, gan gynnwys cyfryngau
- ☑ cymdeithasol
- ☑ Mwy o fanylion am godi pryderon a chwythu'r chwiban
- ☑ Canllawiau ar gadw cofnodion yn effeithiol
- ☑ Mwy o eglurder ynglŷn â dirprwyo a gwneud penderfyniadau
  Canllawiau ar ragnodi a rheoli meddyginiaethau.

Mae'r Cod yn sail i'n ffordd o asesu addasrwydd i ymarfer nyrsys a bydwragedd a gaiff eu hatgyfeirio atom os bydd pryderon ynglŷn â'u hymarfer.



**Ailddilysu – tuag at 2016**

Mae'n bwysig bod eich nyrsys a'ch bydwragedd yn gwybod bod y Cod wedi cael ei ddiweddaru a'r hyn y mae'r diweddariadau hynny yn ei olygu iddynt.

Bydd deall a myfyrio ar y Cod yn ganolog i'r broses orfodol o ail-ddilysu nyrsys a bydwragedd y bwriedir ei chyflwyno o 2015 ymlaen. Bydd y Cod yn gyfeirbwynt defnyddiol ar gyfer ymgorffori gwerthoedd ac egwyddorion proffesiynol wrth arfarnu.

Bydd staff nyrsio a bydwreigiaeth yn gwerthfawrogi cefnogaeth eu cyflogwyr pan fydd angen iddynt ddangos eu haddasrwydd parhaus i ymarfer. Bob tair blynedd, bydd yn rhaid i nyrsys a bydwragedd cofrestredig fodloni gofynion o ran ail-ddilysu er mwyn parhau i fod ar gofrestr yr NMC.

# Next steps...

**What you should you do now**

1. EmDerbyn y Cod, a'i ymgorffori yn eich sefydliad. Bydd hyn yn eich helpu i gynnal proffesiynoldeb eich staff, a gwella ansawdd a diogelwch. Rydym yn argymell eich bod yn tynnu sylw'ch bwrdd neu'ch corff llywodraethu at y Cod diwygiedig.

2. Deall yr hyn y mae'r Cod yn ei olygu i nyrsys a bydwragedd eich sefydliad a'r hyn y bydd disgwyl iddynt ei gynnal. Gallwch lawrlwytho'r Cod o wefan yr NMC yn **www.nmc.org.uk/code**.

3. Ymgorffori cynnwys y Cod newydd yn eich rhaglenni sefydlu, hyfforddi a datblygiad proffesiynol.

4. Sicrhau bod gennych bolisïau ar waith i helpu'ch staff i gynnal y Cod.

Mae rhagor o adnoddau ar wefan yr NMC i'ch helpu i hyrwyddo'r Cod. Gallwch eu darllen yn **www.nmc.org.uk/code**.

# Diolch am eich cefnogaeth